# CYFARFOD CYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod Arbennig a gynhaliwyd ar 28 Hydref 2010.

**YN BRESENNOL:**

Y Cynghorydd Selwyn Williams - Cadeirydd
Y Cynghorydd G. O. Jones - Is-Gadeirydd.

Y Cynghorwyr E. G. Davies, Lewis Davies, Jim Evans, Keith Evans, Ff. M. Hughes, R. Ll. Hughes, W. I. Hughes, W. T. Hughes, H. Eifion Jones, O. Glyn Jones, Raymond Jones, R. Dylan Jones, T. H. Jones, Clive McGregor, Bryan Owen, J. V. Owen, R.L. Owen, R. G. Parry OBE, G.O. Parry MBE, Eric Roberts, J. Arwel Roberts, P. S. Rogers, Hefin W. Thomas, Ieuan Williams. John Penri Williams.

**WRTH LAW:**

Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro
Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid),
Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro (Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol)
Pennaeth Gwasanaeth (Polisi)
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol / Swyddog Monitro
Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgorau,
Swyddog Cyfathrebu

**YMDDIHEURIADAU:**

Y Cynghorwyr W. J. Chorlton, C. Ll. Everett, D. R. Hughes, T. Ll. Hughes, K. P. Hughes, Eirc Jones, R. Ll. Jones, Rhian Medi, G. W. Roberts OBE, E. Schofield.

---

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Cynghorydd R. Dylan Jones.

Estynnwyd croeso cynnes i gynrychiolwyr y Bwrdd Adfer ac i Mr. Alan Morris o Swyddfa Archwilio Cymru.

### 1 DATGAN DIDDORDEB

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

### 2 DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, YR ARWEINYDD, AELODAU O'R PWYLLGOR GWAITH NEU'R PENNAETH GWASANAETH TÂL

Rhoddodd y Cadeirydd groeso cynnes i Ms Diane Hughes, Disco World Môn, Amlwch ac i rai o'i dawnswyr oedd wedi cael llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd yn Aberystwyth ac yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nglyn Ebwy.

Yn dilyn y digwyddiad Cydnabod Cyraeddiadau yng Nghastell Rhuthun, roedd y Cadeirydd am longyfarch Ms Sarah Pickard o Dwyran oedd wedi derbyn y Wobr Arallgyfeirio am ei gwaith yn cefnogi'r gymuned Hoyw a Lesbianaidd yn y cyfryngau.

Estynnwyd llongyfarchiadau hefyd i'r Parch Wynn Roberts, Porthaethwy ar dderbyn Gwobr Ffydd Rhyngwladol am ei waith yn ardal Bangor. Ar hyn o bryd, ef yw Caplan Bwrdd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Llongyfarchwyd George North o Bodedern am gael ei ddewis i Sgwad Rygbi Rhyngwladol Cymru ar gyfer Gemau'r Hydref.  Ef oedd y prif sgoriwr ceisiau yng Nghynghrair Undeb Rygbi Celtaidd Magners.

Dywedwyd y bydd Tîm Ynni Niwclear Horizon yn cynnal sesiwn yn rhoi rhagolwg ar 1 Tachwedd o 11.00am i 12:00pm yng Nghlwb Chwaraeon / Cymdeithasol Wylfa, Cemaes ac y byddai arddangosfeydd cyhoeddus yn cael eu cynnal rhwng 1 Tachwedd a 12 Tachwedd rhwng 11:00am a 12:00pm yn yr un lleoliad.

Aeth y Cadeirydd yn ei flaen i ddweud bod Ailgylchu Tyddyn Môn a Gwastraff Cyngor Sir Ynys Môn wedi cael llwyddiant gyda Gwobr Partneriaeth Nicholas Cylch LICC yn ddiweddar.  Roedd biniau ailgylchu Tyddyn Môn i'w gweld yma a thraw ar draws yr Ynys ac fe roddwyd 250 tunnell o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu iddynt.

Ar ran yr Aelodau a'r Swyddogion, estynnwyd dymuniadau gorau i'r Cynghorydd Derlwyn Hughes am adferiad llwyr a buan.

Nododd y Cadeirydd bod nifer o ddamweiniau brawychus wedi digwydd ar ffyrdd yr Ynys yn ddiweddar.

Ar ddydd Sul, bu'r Parch Robert Glyn Williams, 86 oed o Breeze Hill, Benllech mewn damwain car ym Menllech ac yr oedd wedi marw o'i anafiadau.

Roedd damwain erchyll arall wedi digwydd ym Marianglas, lle roedd Kevin Hughes o Borth Llechog wedi cael ei ladd ar ei feic modur gyda phobl oedrannus yn y car oedd yn y ddamwain wedi'u cymeryd i'r ysbyty.  Roedd un ohonynt yn chwaer-yng-nghyfraith i gyn Arweinydd Cyngor Sir Ynys Mon, W. J. Williams a'r person arall yn y car oedd mam y Cynghorydd Hefin Thomas. Estynnwyd dymuniadau gorau iddynt am adferiad llwyr a buan.

Mynegodd y Cadeirydd ei gydymdeimlad ag unrhyw Aelod, neu Swyddog oedd wedi cael profedigaeth.

Safodd yr Aelodau a'r Swyddogion mewn teyrnged ddistaw fel arwydd o'u parch.

## 3 CYNLLUN GWELLA

Adroddwyd - Bod y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 26 Hydref, 2010 wedi ystyried yr uchod ac wedi penderfynu argymell i'r Cyngor Sir fel a ganlyn:-

*"Argymell i'r Cyngor Sir ei fod yn cymeradwyo'r Cynllun Gwella ar gyfer 2010/11 (Adolygiad Perfformiad 2009/10) a rhoi awdurdod i'r Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) mewn ymgynghoriad gyda'r Aelod Portffolio ar gyfer Llywodraethu Corfforaethol, i gwblhau'r cynllun ar gyfer ei gyhoeddi ac i gyfeirio gwybodaeth ynghylch perfformiad i'r Pwyllgor Sgriwtini perthnasol am ddadansoddiad pellach gan gyfeirio'n benodol at ddangosyddion perfformio yn y chwartel isaf........."*

**PENDERFYNWYD cefnogi argymhellion y Pwyllgor Gwaith fel uchod.**

**4 SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU - ASESIAD CORFFORAETHOL CYCHWYNNOL**

a) Cyflwynwyd - Cyflwyniad gan Mr. Alan Morris, Swyddfa Archwilio Cymru ar yr uchod.

Adroddwyd - Bod angen i'r Archwilydd Cyffredinol wneud asesiad gwelliant blynyddol ar gyfer pob Awdurdod gwelliant yng Nghymru. Er mwyn gwneud hyn, bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal Asesiad Corfforaethol o drefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ac asesiad perfformiant ar welliannau a gynlluniwyd. Roedd yr adroddiad yn gosod allan gan fyddiadau'r asesiad corfforaethol yn unig ac roedd wedi'i llunio i ateb y cwestiwn a fyddai trefniadau'r Cyngor yn debygol o sicrhau gwelliant parhaus.

Byddai Swyddfa Archwilio Cymru yn parhau i adeiladu ar yr adroddiad trwy fonitro cynnydd yn y misoedd i ddod i roddi diweddariad gyda hwnnw i'w ryddhau fis Tachwedd. Roedd yr adroddiad o'r farn bod y Cyngor wedi ymateb yn gadarnhaol i ymyrraeth y Gweinidog ond bod llawer o waith angen ei wneud i weithredu cynlluniau ac wedyn i sefydlu'r gwaith o foderneiddio ei drefniadau corfforaethol a sicrhau cynaliadwyaeth y gwelliant. (Roedd y casgliadau hyn yn cael eu hegluro mewn manylder yn rhannau 1 a 2 yr adroddiad).

Roedd casgliadau yn dweud bod nifer o'r sylfaeni yn eu lle i fynd i'r afael a gwendidau hirdymor ond bod yna amheuaeth a oedd y gwelliant yn gynaliadwy. Roedd arweiniad penderfynol yn dechrau gwella'r llywodraethu ond bod llawer o waith yn parhau i'w wneud gyda gweithredu cynlluniau ac yna i fewnoli'r gwaith o foderneiddio trefniadau corfforaethol y Cyngor.

(b) Cyflwynwyd - Ymateb y Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro i adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn gosod allan y cynnydd hyd yn hyn o safbwynt y meysydd allweddol yn y Rhaglen Adfer. Roedd am dynnu sylw'r Cyngor at y gwaith sy'n cael ei wneud o fewn y 6 maes allweddol canlynol:-

- Cryfhau Llywodraethu
- Cydweithio Aelodau a Swyddogion
- Arweiniad ac Ymgysylltiad
- Gwneud y Cyngor yn fwy fel Busnes.
- Gwella Perfformiad a Rheoli Perfformiad
- Gwella Rheolaeth Enw Da.

**PENDERFYNWYD cyfeirio asesiad Swyddfa Archwilio Cymru i'r Pwyllgor Archwilio ac i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol i'w ystyried a bod mandad benodol yn cael ei roi i'r Grwp Llywio Adferol i fod â throsolwg o'r cynnydd.**

**5 SWYDDFA GOFNODIADAU YNYS MÔN - ADRODDIAD CYNNYDD 3**

Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn bwriadu delio â'r eitem hon yn gyhoeddus oni bai fod yna faterion o sensitifrwydd masnachol fyddai'n codi o unrhyw drafodaeth.

Adroddwyd - Bod y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 26 Hydref, 2010, yn dilyn ystyried yr adroddiad uchod wedi penderfynu argymell i'r Cyngor Sir fel a ganlyn:

*"Argymell i'r Cyngor Sir ei fod yn cytuno i ryddhau'r arian angenrheidiol ar gyfer y gwaith addasu ar yr adeilad hwn fel y cynlluniwyd o'r cyllidebau wrth gefn corfforaethol sydd heb eu*

*dyrannu;  ac i awdurdodi swyddogion i fwrw ymlaen gyda'r trafodaethau, ar sail anffurfiol, mewn perthynas â gosod ar rent  y gofod storio all fod dros ben a hynny ar y telerau gorau posib."*

**PENDERFYNWYD cymeradwyo argymhellion y Pwyllgor Gwaith fel uchod.**

**Daeth y cyfarfod i ben am 4:35pm**

**Y CYNGHORYDD SELWYN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**